DP 1071/07-11 - Welsh version

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rhodri Morgan AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister for Wales**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mohammad Asghar AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Mawrth 2008

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 19 Chwefror 2008, addewais ichi y byddwn yn ysgrifennu atoch am estyn gwasanaeth rheilffordd Glyn Ebwy i Gasnewydd, tref Glynebwy ac Abertyleri.

Rydym wedi comisiynu Network Rail i gynnal astudiaeth o ymarferoldeb a chostau codi'r cyfyngiadau yn Gaer Junction unwaith y daw Prosiect Signalu Ardal Casnewydd i ben.

Nid ydym wedi newid ein meddyliau ynghylch eisiau gweld gwasanaeth rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Byddwn yn adolygu'r gwasanaeth gydag Arriva Trains Cymru a Network Rail ac mewn cydweithrediad â SEWTA, i benderfynu sut orau i ddarparu gwasanaeth i Gasnewydd. Bydd y broses yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr y rheilffyrdd ar y gwasanaeth a'r amserlenni. Fel gyda phob cynnig i estyn gwasanaeth, bydd yn rhaid ystyried a fedrwn ei fforddio ac a gawn werth ein harian

Er mwyn rhedeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Glynebwy a Chasnewydd, bydd angen i'r pedwar platffordd allu gweithio'r ddwy ffordd. Prosiect Ailsignalu Casnewydd fydd yn gwneud hynny'n bosibl, a bydd hefyd yn hwyluso'r gwasanaethau trwy Gasnewydd; ac ailsefydlu'r groesfan yn y Graig. Bydd angen cwblhau'r holl waith cyn y gellir darparu gwasanaeth rheolaidd, hynny oherwydd cyfyngiadau'r capasiti gweithredol yn/trwy Gasnewydd (nid oherwydd patrwm llwybrau'r trac yn unig).

Nid oes digon o isadeiledd ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth cludo teithwyr rheolaidd i Gasnewydd. I'r sefyllfa newid, bydd angen croesfan newydd dros y fan lle mae Lein Glyn Ebwy yn cwrdd â Phrif Lein De Cymru, newid y signalu yn ardal Park Junction, cwblhau platfform 4 newydd hir newydd yng Ngorsaf Casnewydd ac ailsignalu'r brif lein. Rhagwelir na ddaw'r gwaith i ben cyn 2009/dechrau 2010, pan fydd Network Rail yn cwblhau cam cyntaf y gwaith ailsignalu ar y Brif Lein yng Nghasnewydd.

Mae'r rheolau ar gyfer symud cerbydau gwag (a threnau cludo nwyddau) yn wahanol ac yn llai llym na'r rheolau ar gyfer trenau cludo teithwyr. Nid oes digon o drac (yn Gaer Junction) i redeg gwasanaeth rheolaidd rhwng Casnewydd a Glynebwy. Mae trenau di-deithwyr hyfforddi gyrwyr wedi bod yn mynd i Lawr (gorllewin), yn ôl o orsaf Casnewydd ac i Fyny (i'r dwyrain) am yr hanner milltir i'r Gaer pan geir bwlch bach yn yr amserlen trenau. Nid oes bwlch rheolaidd a phe bai gwasanaeth yn cael ei redeg, byddai'n cael effaith fawr ar wasanaethau eraill.

English Enquiry Line 0845 010 3300
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400

Dyheadau at y dyfodol yw estyn y lein i ganol Glynebwy ac i Abertyleri a bydd yn rhaid i'r carfanau dan sylw gyflwyno cynllun busnes i'w gwireddu.

Rwy'n ysgrifennu llythyr tebyg at Trish Law AC.